CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL
7 Gorffennaf 2021, Trwy Zoom 7.00yh

YN BRESENNOL: Cyng. D. Idriswyn Roberts (Cadeirydd) N Jones, E Williams, D Gwyn, Ll. Roberts, O. Evans R Williams, A Mummery, (Cyngor Sir). A. Le Cras (Clerc)	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Cyng. S. Hughes. a R.M. Jones (Cyngor Sir) Cydymdeimlwyd gyda Cynghorydd A. Mummery a'r Clerc yn neu profedigaethau.
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 05/05/21 (Nodwyd na chynhaliwyd cyfarfod ym mis Mehefin). Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng A. Mummery yn cynnig a Cyng D. Gwyn yn eilio.
4.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Difrod i wynebedd y bont dros yr A55**. CSYM wedi gosod arwyddion rhybuddio ar y lôn. Gwaith atgyweirio i gychwyn yn fuan.
4.2	**ELUSENDAI / TAI ROGERS LEWIS** Nodwyd bwriad y pwyllgor i gyfarfod i drafod sut i symud ymlaen gyda'r safle. Gofynwyd i'r aelodau am eu mewnbwn fel aelodau'r gymuned. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd codi'r pwyntiau isod yn y cyfarfod. **Yr anneddau presennol** • Yn hanesyddol mae'r tai ar gyfer unigolion dros 50 oed. • Dim siop, meddygfa, capel, eglwys ayb - anaddas i'r henoed heb gerbyd. • Oes posib newid yr amod a chael gostwng yr oedran? • Annog pobl ifanc i aros yn yr ardal • Atal di boblogi ardal cefn gwlad. • Posibilrwydd i'w defnyddio fel cam ar y ffordd i brynu ty - cyfyngu cytundeb i 3 neu 5 mlynedd.

	Y safle'n ei gyfanrwydd • Posibilrwydd o adeiladu mwy o dai ar y safle • Plotiau i bobl hunan adeiladu **Ystyried** • Cydweithio gydag Adran Tai y Cyngor Sir • Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg • Grantiau • Potensial i fod yn fodel ar gyfer ardaloedd cefn gwlad eraill • Rhaid i'r tai fod yn hunan gynaliadwy - dim baich ariannol ar yr Eglwys na'r Cyngor Cymuned. Datganwyd diddordeb gan Cynghorydd R. Williams gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio. E. Williams i gysylltu â Sue Van Leese i holi a fyddai'n bosib newid yr amod fod yr aneddau ar gyfer pobl dros 50 oed.
4.3	**MAES CHWARAE STAR** Clerc i chwilio am gytundeb torri gwair. Os nad oes cytundeb yn ei le, gofyn i N. Jones wneud torriad. (A.M / N.J)
4.4	**GROESFFORDD PENMYNYDD/LLANFAIRPWLL** Nodwyd bod gordyfiant yn amharu ar weledaeth ar y groesffordd. Mae'r drych hefyd wedi symud gyda'r. gwynt. Clerc i adrodd ar y gordyfiant i CSYM a gofyn am osod y drych ar ddau bostyn er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei symud gan wyntoedd cryf.
4.5	**BINIAU SBWRIEL** Clerc i archebu biniau sbwriel a bagiau baw ci.
5.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN**
5.1	**YMGYNGHORIAD AR LEFEL PREMIWN Y DRETH AR AIL GARTREFI** Aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad yn uniongyrchol fel unigolion. Datganwyd diddordeb gan y Cynghorwyr A. Mummery a R. Williams.
6.0	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**

6.1	**YMGYNGHORIAD AR REOLIADAU CYMWYSTERAU CLERCOD YNG NGHYMRU** I'w gwblhau yn ystod cyfarfod mis Medi 2021.
7.0	**MATERION ARIANNOL**
7.1	**TALIADAU** Cyflog Clerc (2 fis) Norman Jones - Torri gwair £150.00 Yswiriant Zurich £610.04
8.0	**MATERION ERAILL**
8.1	**PWYNTIAU GWEFRU CEIR TRYDAN** Trafodwyd y cynnig a phenderfynwyd nad oedd diddodeb ar hyn o bryd. Efallai ail edrych ar y mater yn y dyfodol.
8.2	**GOR YRRU** Cyngor Bro Llanfairpwll mewn cysylltiad gyda'r Heddlu a'r Cyngor Sir ynglyn a'r mater. A.Mummery i ychwanegu pryderon Penmynydd a Star i'r drafodaeth.
8.3	**ARWYDDION LLWYBRAU CYHOEDDUS** Clerc i adrodd i Arwel Williams, Swyddog Llwybrau'r Cyngor Sir fod diffyg arwyddion ar rai o'r llwybrau troed.
8.4	**ER GWYBODAETH** Y neuadd ar gau o hyd ond yn gobeithio ail agor ym mis Medi, yn ddibynnol ar y sefyllfa a'r rheoliadau yn ymnweud a'r feirws. Cyngor Cymuned i gychwyn cyfarfodydd yn y Neuadd o mis Hydref ac yn achlysurol wedi hynny. Grantiau wedi'u derbyn gan Medrwn Môn ar gyfer deunydd di heintio ac arwyddion diogelwch.
8.5	**EITEM YCHWANEGOL -** **ADRODDIAD PWYLLGOR SAFONAU** Derbyniwyd yr adroddiad yn dilyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Safonau. Diolchwyd i Anwen am gyfarfod a'r panel. Nodwyd bod mân eitemau i'w gweithredu ond yr adroddiad yn gyffredinol yn gadarnhaol.
9.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Llofnod **Cadeirydd** **08/09/2021**